

# AMGUEDDFA CYMRU



## mynediad gweithgareddau 1-6



Noddir gan  
Lywodraeth  
Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly  
Government

# mynediad 1

## darganfod cefndir pobl yn yr amgueddfa

## tiwtor

**Nod: Dysgu sut i gyfarch rhywun a holi am eu cefndir. Neu, gallwch wneud y gweithgaredd yn y dosbarth, fel paratoad i'r ymweliad, drwy wyllo neu gwarando ar y darn priodol ar y DVD/CD i ddarganfod yr un wybodaeth. Ymarfer sut i drosglwyddo'r wybodaeth hon i berson arall.**

### Camau

1. Edrychwch ar y taflenni ac egluro'r dasg a'r eirfa.
2. Ewch trwy'r cwestiynau y bydd angen eu gofyn, a sut i gyflwyno'r atebion.
3. Gofyn i'r dysgwyr gyfarfod mewn man penodedig i adrodd yn ôl.

neu

2. Chwaraewch y darn ar gyfer lefel Mynediad o fewn *Cyfweliadau* ar y DVD/CD.
3. Trafodwch yr atebion.



# mynediad 1

## darganfod cefndir pobl yn yr amgueddfa

## dysgwr

**Cerddwch o gwmpas yr Amgueddfa a chwiliwch am bobl sy'n gweithio yno.**  
**[Walk around the Museum and look for people who work there.]**

**Gofynnwch y cwestiynau isod i 4 ohonynt. Gwrandewch ar yr atebion a'u nodi ar y dudalen nesaf. Adroddwch yr atebion i'ch tiwtor.**  
**[Ask the questions below to 4 of them. Listen to the answers and note them on the next page. Present your answers to your tutor.]**

neu (or)

**Gwylwch neu gwrandewch ar y darn priodol ar y DVD/CD a nodwch atebion y cwestiynau isod ar gyfer y 4 person, ar y dudalen nesaf. Trafodwch eich atebion gyda'r tiwtor.**

**[Watch or listen to relevant part of the DVD/CD and note the answers to the questions below for the 4 people, on the next page. Discuss your answers with your tutor.]**

### Cwestiynau

Beth ydy eich enw chi?

Ble dych chi'n byw?

Ydych chi'n dod o Dre-fach Felindre yn wreiddiol?

Ble cawsoch chi eich magu?

Ble cawsoch chi eich geni?

Ers faint dych chi'n gweithio yma? (os yn holi pobl sy'n gweithio yno)

Ers faint dych chi wedi bod yn cwrdd yma? (os yn gwyllo'r DVD neu yn gwrandeo ar y CD)

### Ffurf i gyflwyno'r atebion

Enw'r gweithiwr yw...

Mae e'n / hi'n byw yn...

Dydi e / hi ddim yn dod o Dre-fach Felindre yn wreiddiol / Mae e'n / hi'n dod o Dre-fach yn wreiddiol

Cafodd e / hi ei magu yn...

Cafodd e ei eni / hi ei geni yn...

Mae x yn gweithio yma ers ... mis / mlynedd.

Mae x wedi bod yn cwrdd yma ers ... mis/mlynedd.

### Geirfa

yn wreiddiol – *originally*

magu – *raised*

geni – *born*

gweithio – *work*

mis(oedd) – *month(s)*

mlynedd – *years*

# mynediad 1

darganfod cefndir pobl yn yr amgueddfa

dysgwr

Gweithio/ Cwrdd yma ers faint?				
Ble geni?				
Ble magu?				
Dod o Dre-fach Felindre?				
Byw				
Enw				

# mynediad 2

holi un person am ei deulu / ei theulu

tiwtor

**Nod: Dysgu sut i gyfarch rhywun a holi am ei deulu. Trosglwyddo'r wybodaeth i berson arall.**

## Camau

1. Edrychwch ar y taflenni ac egluro'r dasg a'r eirfa.
2. Ewch trwy'r cwestiynau y bydd angen eu gofyn, a sut i gyflwyno'r atebion.
3. Gofyn i'r dysgwyr drefnu i gyfarfod mewn parau, i adrodd yn ôl i'w gilydd. Bydd angen bod y pâr wedi holi pobl wahanol. (Gallent holi ei gilydd os nad oes llawer o bobl sy'n siarad Cymraeg yn yr Amgueddfa.)



# mynediad 2

## holi un person am ei deulu / ei theulu

## dysgwyr

Chwiliwch am rywun dych chi ddim yn nabod sy'n siarad Cymraeg. Gofynnwch y cwestiynau isod iddo / iddi. Nodwch yr atebion ar y dudalen nesaf. Adroddwch yr atebion wrth eich partner yn Gymraeg.

[*Look for someone you don't know, who can speak Welsh. Ask them the questions below. Note the answers on the next page. Present the answers to your partner in Welsh.*]

### Cwestiynau

Beth ydy eich enw chi?

Ydy chi'n briod? Ers faint dych chi'n briod?

Oes plant 'da chi? Faint ydi eu hoed nhw / ei oed e / ei hoed hi?

Oes brawd / chwaer 'da chi? Beth ydy eu henwau / ei enw / ei henw?

Pwy sy'n byw yn eich tŷ 'da chi?

Oes teulu 'da chi'n byw yn agos? Pwy?

### Ffurf i gyflwyno'r atebion i'ch partner

Enw'r person yw...

Mae e'n / hi'n briod / ddi-briod / wedi ysgaru / yn wraig weddw ... ers x mis / mlynedd.

Mae gyda fe / gyda hi 1/2/3 o blant / un ferch / dau fab. Mae e'n / hi'n bump ar hugain oed. Mae nhw'n dair, saith a naw oed.

Mae gyda fe / gyda hi frawd / dwy chwaer. Eu henwau yw ... Enw ei chwaer ydy...

Mae ei gŵr / mam / plant yn byw yn y tŷ 'da hi.

Mae ganddo frawd yng nghyfraith yn byw yn agos.

### Geirfa

enw / enwau – name / names

di-briod – un-married

wedi gwahanu – separated

gŵr gweddw / gwraig weddw – widower / widow

ers faint – since when

agos – near

mlynedd – years

plant / plentyn – children / child

chwaer / chwiorydd – sister / s

merch / merched – daughter / s

brawd yng nghyfraith – brother-in-law

nai / neiaint – nephew / s

cefnder / cefndryd – male cousin / s

nith / nithod – niece / s

cyfnither / cyfnitherod – female cousin / s

ŵyr / wyrion – grandson / s

wyres / wyresau – granddaughter / s

priod – married

wedi ysgaru – divorced

oed – age

byw – lives

mis – month

teulu – family

brawd / brodyr – brother / s

mab / meibion – son / s

# mynediad 2

holi un person am ei deulu / ei theulu

dysgwr

<b>Enw</b>	
<b>Priod? Ers faint?</b>	
<b>Plant? Oed?</b>	
<b>Brawd / Chwaer? Enwau?</b>	
<b>Pwy sy'n byw yn y tŷ?</b>	
<b>Oes teulu'n byw yn agos?</b>	

# mynediad 3

## termau

## tiwtor

### Camau

1. Dysgu'r termau a'u cysylltu wedyn â'r lluniau priodol.
2. Cael y dysgwyr i ofyn cwestiynau a pharu'r geiriau â'r lluniau.

### laith

Beth yw hwn?

Beth sy'n digwydd?

Beth mae X yn ei wneud?

Ble mae'r \_\_\_\_\_?

Dyma'r \_\_\_\_\_.

Mae'r dyn/fenyw yn \_\_\_\_\_.





# mynediad 3

## termau

## tiwtor

dafad (defaid)	<i>a sheep (sheep)</i>
cneifio	<i>to shear sheep</i>
gwlan	<i>wool</i>
golchi	<i>to wash</i>
lliwio	<i>to dye</i>
tröell	<i>spinning wheel – an apparatus for spinning yarn or thread with a spindle driven by a wheel attached to a treadle.</i>
nyddu	<i>to spin – to draw out and twist fibres of wool to convert them into yarn.</i>
ystofi	<i>to warp – the process of arranging yarn so as to form the warp of a piece of cloth (i.e. the lengthwise threads on a loom) over and under which the weft (anwe) or crosswise threads are passed.</i>
gwŷdd(iau)	<i>loom(s) – apparatus for making fabric by weaving yarn or thread.</i>
gwehyddu	<i>to weave – the process of forming fabric by interlacing long threads passing in one direction with others at a right angle to them.</i>
























# mynediad 4

## dod i nabod y safle

## tiwtor

**Nod: Crwydro o gwmpas a holi am leoliad gwrthrychau neu mannau arbennig er mwyn dod i nabod y safle. Dysgu rhai geiriau newydd ac ymarfer cwestiynau syml.**

### Camau

1. Edrych ar y daflen ac egluro'r dasg.
2. Peidio ag egluro geiriau newydd – rhaid eu dysgu wrth weld y gwrthrychau.
3. Gofyn i'r dysgwyr gyfarfod mewn man penodedig i adrodd yn ôl.



# mynediad 4

## dod i nabod y safle

## dysgwyr

Dyma fap o Amgueddfa Wlân Cymru.

### Allwedd PROFIAD YR AMGUEDDFA

Cwestiynau? Siaradwch ag un o staff gwybodys yr Amgueddfa.

- 1 **Derbynfa**
- 2 **Mynedfa'r Oriolau**  
Edrychwch ar y bwrdd i weld pa grefftwyrr sydd wrth eu gwaith
- 3 **Iard Hir**  
Dilyn y praidd – defaid a phriodweddau gwlan. Cartref ein harddangosfeydd dros-dro
- 3a **Cip ar ein Offer Gorffen (Ystafell Olchi)**
- 4 **Y Felin – Llawr Gwaelod**  
Y Chwalwr, Peiriant Cribo a Gwyddiau, gan gynnwys y Gwydd Dobcross a'r Coniwr
- 5 **Y Felin – Llawr Cyntaf**  
Mul Nyddu, arddangosfeydd Diwydiant Cartref a Hanes Cymdeithasol
- 6 **Offer Gorffen (Ystafell y Deintur)**  
Sychu a gorffen brethyn wedi'i wehyddu
- 7 **Ystafell Wnio, Stondin Farchnad a Siop y Dilledydd**  
Gwisgwch ddillad gwlan fel y rhai arferai gael eu cynhyrchu yma ar gyfer hunlun unigryw!
- 8 **Brethyn Bywyd – Yr Oriol Decstilau**  
Oriol o rai o ddefnyddiau rhyfeddol gwlan
- 9 **Y Gorlan**  
Mae'r cafffi ar agor drwy'r dydd yn gweini te a choffi, cinio a chacennau yn defnyddio cynnyrch lleol
- 10 **Siop**  
Prynwch anrhegion unigryw ac atgofion o'ch ymweliad

#### ATYNIADAU ERAILL

- 11 **Ystafell Injan Nwy Tangye**
- 12 **Y Sied Wehyddu**  
Cartref gwehyddwyr masnachol Melin Teifi, lle gallwch chi weld y gwyddiau wrth eu gwaith
- 13 **Sied Wynt**  
Lle cai biancedi eu sychu – ger ein ardal bicnic
- Yr **Ardd Liwrau Naturiol**  
Mwynhewch y detholiad o blanhigion fyddai'n cael eu defnyddio i liwio defnydd

 – Toiledau a newid babi

 – Liff

 – Swnnlyd



# mynediad 4

## dod i nabod y safle

## dysgwyr

Cerddwch o gwmpas y safle gan chwilio am y gwrthrychau/mannau canlynol a rhoi'r rhifau ar eich map.

*[Walk around the Museum, looking for the following objects/locations and note their numbers on your map.]*

Gofynnwch i bobl am help i ddeall yr eirfa, er enghraifft, "Beth yw 'olwyn'?"

*[Ask people for help if you don't understand a particular word.]*

1. Y tai bach
2. Injan Nwy Tangye
3. Y Siop
4. Yr Ystafell Olchi
5. Yr Iard Hir
6. Gwyddiau
7. Yr Olwyn Ddŵr
8. Tŷ Pen Powned
9. Melin Teifi
10. Ystordy Ymchwil

Mae'n bosib ichi ofyn am help, er enghraifft, "Ble mae'r tai bach?", "Beth yw enw'r ystafell 'ma?", "Oes X yma?".

# mynediad 5

helfa drysor

tiwtor

**Nod: Defnyddio iaith syml i chwilio am wahanol bethau ar y safle.**

## Camau

1. Edrych ar y taflenni ac egluro'r dasg.
2. Egluro geiriau anghyfarwydd.
3. Bydd angen gofyn am help i ddod o hyd i rai o'r gwrthrychau.
4. Gofyn i'r dysgwyr gyfarfod mewn man penodedig ar amser arbennig i adrodd yn ôl.
5. Dysgu'r arddodiaid a restrir a chwblhau'r ymarfer ar Daflen B.



# mynediad 5

helfa drysor

dysgwr  
taflen A

**Ewch o gwmpas y safle i chwilio am y pethau canlynol a nodwch eu lleoliad.**  
**[Walk around the site to find the following objects and note their location.]**

1. Tafol
2. Cwrwgl
3. Llun dafad Llanwenog
4. Yr Olwyn Ddŵr
5. Y Diafol!
6. Tröell
7. Gwŷdd
8. Gwisg Gymreig
9. Desg
10. Injan Nwy Tangye
11. Cadair fawr y Storiwr

Cofiwch ofyn am help:

“Ble mae’r diafol?”, “Beth yw gwŷdd?”, “Oes gwŷdd ar y llawr ‘ma?”

Gofynnwch i aelodau eraill y dosbarth:

“Ydych chi wedi ffeindio tröell?”, “Ble mae’r cwrwgl?”,

“Ydy Cadair fawr y Storiwr yn y stafell ‘ma?”.



# mynediad 5

helfa drysor

dysgwr  
taflen A

Gwrthrych/Object	Lleoliad/Location
Tafol 	
Cwrwgl 	
Llun dafad Llanwenog 	
Yr Olwyn Ddŵr 	
Y diafol 	
Tröell 	

## mynediad 5

helfa drysor

dysgwr  
taflen A

Gwrthrych/Object	Lleoliad/Location
<p>Gwŷdd</p> 	
<p>Gwisg Gymreig</p> 	
<p>Desg</p> 	
<p>Injan Nwy Tangye</p> 	
<p>Cadair fawr y Storiwr</p> 	

# mynediad 5

## helfa drysor

## dysgwr taflen B

**Pa wrthrych a restrir ar Daflen A sydd yn y lleoliadau yma?**  
**[What objects listed on sheet A are in the following locations?]**

Mae \_\_\_\_\_ mewn cornel yn ymyl y caffi.

Mae \_\_\_\_\_ gyferbyn â'r 'diafol'.

Mae \_\_\_\_\_ yn ymyl y grisiau yn yr lard Hir.

Mae'r \_\_\_\_\_ wrth ochr y peiriant cribo ar y Llawr Isaf.

Mae \_\_\_\_\_ yn yr lard Hir.

Mae'r \_\_\_\_\_ yn adran 'Cymru a'r Byd'.

Mae'r \_\_\_\_\_ yn yr Oriel Decstilau.

Mae'r \_\_\_\_\_ y tu allan i'r Amgueddfa.

### Geirfa:

mewn	<i>in a</i>
yn	<i>in the, in a definite place</i>
gyferbyn â	<i>opposite</i>
yn ymyl	<i>near</i>
y tu allan i	<i>outside</i>
wrth ochr	<i>beside</i>


# mynediad 6

## taith o gwmpas y pentref

## dysgwyr

**Nod [Aim]:** Dilyn llwybr gosod o gwmpas y pentref ac ateb y cwestiynau ar y daflen trwy dicio'r gair neu'r frawddeg gywir. Mae pob rhif yn cyfateb i le ar y map. [To follow the path indicated on the map and answer the questions by ticking the correct statement. Each number corresponds to a location on the map.]

### Taith o Amgylch y Fro



# mynediad 6

## taith o gwmpas y pentref

## dysgwr

1. Ewch allan trwy giât yr Amgueddfa. Trowch i'r dde ac i'r dde unwaith eto, a dilynwch y llwybr sy'n rhedeg ar hyd ochr yr Amgueddfa. O'r llwybr, edrychwch draw at yr Amgueddfa. Mae gyda'r adeilad yn syth o'ch blaen nifer o ffenestri. Dyma hen sied wau Melin Cambrian. Roedd tua 20 o bobl yn gweithio yno.  
*[Go through the Museum gates. Turn right and right again, and follow the path that runs alongside the Museum. From the path, look across to the Museum. In front of you, you will see a low building with many windows. This is the former Cambrian Mill weaving shed. About 20 people used to work there.]*

Mae'r sied yn uchel.  
 Mae'r sied yn hir.  
 Mae'r sied yn fach.



2. Cerddwch ymlaen at y bont ac arhoswch yna. Enw'r bont yw Pont y Glyn.  
*[Walk on to the bridge known as Pont y Glyn and stop there.]*

Mae'r afon yn llydan.  
 Mae'r afon yn fawr iawn.  
 Mae'r afon yn gul.

3. Ar ôl croesi'r bont, mae tŷ mawr o'r enw Y Glyn.  
*[After crossing the bridge there is a house called Y Glyn.]*

Mae'r tŷ ar y dde.  
 Mae'r tŷ ar y chwith.  
 Mae'r tŷ yn fach.

# mynediad 6

## taith o gwmpas y pentref

## dysgwr

4. Ewch ymlaen ar hyd y llwybr, trowch i'r chwith ac ewch trwy'r giât. Edrychwch ar y dde a chwiliwch am adeilad i fyny ar ochr y bryn. Cryngae yw hwn.  
*[Carry on along the path, turn to the left and go through the gate. Look for a building up on the side of the hill and look to your right. This is Cryngae.]*

Mae Cryngae yn ffatri.  
 Mae Cryngae yn gapel.  
 Mae Cryngae yn fferm.

5. Ewch ymlaen a thrwy giât arall. Wedi cyrraedd yr heol, trowch ychydig i'r dde. Mae adeilad mawr o'ch blaen. Dyma Cilwendeg.  
*[A little further along, go through another gate. After reaching the road, turn right. A building stands before you. It is called Cilwendeg.]*

Mae'n hen ffatri wlân.  
 Mae'n hen ysgol.  
 Mae'n hen gapel.

6. Trowch yn ôl i'r chwith, a dilynwch yr heol ymlaen, heibio i arwydd Pwllmarl, ger y byngalos. Trowch i'r chwith unwaith eto, a dilyn y lôn fferm trwy glos fferm Pwllmarl. Ar ôl croesi'r afon, edrychwch i'r dde ar draws y cae. Dyma ffatri Meiros.  
*[Turn back to the left and follow the road, past the Pwllmarl sign, near the bungalows. Turn to the left again and proceed along the farm track through Pwllmarl farmyard. After crossing the river you will see the Meiros Woollen Mill on the right, across the field.]*

Mae waliau cerrig 'da ffatri Meiros.  
 Mae waliau brics 'da ffatri Meiros.  
 Mae waliau concrit 'da ffatri Meiros.

7. Croeswch y bont nesaf a dilynwch y llwybr i fyny at hen ffatri wlân Square Hall.  
*[Cross the next bridge and follow the path up to the former Square Hall Woollen Mill.]*

Tafarn yw Square Hall.  
 Mae Square Hall ar gau.  
 Mae busnes yno nawr.

# mynediad 6

## taith o gwmpas y pentref

## dysgwr

8. Cerddwch ymlaen at yr heol. 'Dych chi nawr yn ôl yn stryd fawr y pentref. Trowch i'r dde. Mae capel Bethel ar y chwith.  
*[Carry on to the main road. You are now back in the main street of the village. Turn right and you will see a chapel on the left.]*

Adeiladwyd y capel yn 1809.  
 Adeiladwyd y capel yn 1840.  
 Adeiladwyd y capel yn 1920.

9. Yn nes ymlaen mae tŷ mawr ar y chwith o'r enw Meiros Hall. Pwy, yn eich tyb chi, oedd yn byw yma?:  
*[Further along on the left, you will see a large house called Meiros Hall. Who do you think lived here?]*

Roedd un o weithwyr Melin Meiros yn byw yma.  
 Roedd perchennog (owner) Melin Cambrian yn byw yma.  
 Roedd perchennog Melin Meiros yn byw yma.

10. Pan ddewch at fforch yn yr heol, trowch i'r chwith ac ewch i fyny'r bryn. Trowch i'r dde gyferbyn â mynwent Bethel ac fe welwch fynwent arall ar y gornel. Ewch i mewn iddi.  
*[When you reach a fork in the road, turn left and climb the hill. Turn right opposite Bethel graveyard. Enter the other graveyard that is on the corner, directly opposite.]*

Mae capel o'r enw Pen-rhiw yma.  
 Roedd capel o'r enw Pen-rhiw yma.  
 Mae'r capel yn Aberystwyth nawr.

11. Trowch i'r dde allan o'r fynwent. Dilynwch yr heol nes ichi ddod at dŷ o'r enw Dolwïon. Gwelwch lôn gul ar y dde yn arwain at ffatri Dolwïon.  
*[Turn right out of the graveyard. Follow the road until you come to a house called Dolwïon. You will see a narrow lane on the right leading to Dolwïon Wollen Mill.]*

Mae'r ffatri wedi cau.  
 Mae'r ffatri ar agor.  
 Mae'r ffatri yn brysur iawn.

# mynediad 6

## taith o gwmpas y pentref

## dysgwr

12. Ewch heibio i ffatri Dolwïon a dilynwch y llwybr nes ichi gyrraedd y stryd fawr. Trowch i'r dde. Wrth gerdded yn ôl trwy'r pentref, beth sydd wedi ei ysgrifennu ar ffrynt un o'r tai ar y dde?

*[Once you have passed Dolwïon Woollen Mill, follow the path until you reach the main street. Turn right. What is written on the front of one of the houses on the right?]*

Ystafell de.  
Salon de Thè.  
Tea and Coffee Rooms.

13. Croeswch y bont dros Afon Esger. Mae Ysgol Penboyr ar y chwith.  
*[Cross the bridge over Afon Esger. Penboyr School is on the left.]*

Ysgol Eglwys yw hon.  
Ysgol Uwchradd yw hon.  
Ysgol Saesneg yw hon.



14. Wrth ochr yr ysgol fe welwch eglwys a mynwent. Ewch i mewn i'r fynwent.  
*[There is a church at the side of the school. Enter the graveyard.]*

St Peter's yw enw'r eglwys.  
St Thomas yw enw'r eglwys.  
St Barnabas yw enw'r eglwys.



# mynediad 6

## taith o gwmpas y pentref

## dysgwr

15. Enw'r sgwâr y tu allan i'r eglwys yw Sgwâr y Giât. Ewch yn ôl i'r pentref, heibio i'r neuadd.

[*The name of the square by the church is Sgwâr y Giât. Return to the village, passing the village hall.*]

Enw'r neuadd yw Neuadd Dre-fach.  
Enw'r neuadd yw Neuadd y Ddraig Goch.  
Enw'r neuadd yw Neuadd y Mileniwm.

Ewch ymlaen yn syth i fynd nôl i'r Amgeuddfa i gwrdd â'ch tiwtor er mwyn trafod eich atebion.

[*Keep walking straight on to reach the Museum where you can discuss your answers with your tutor.*]

### Geirfa

(Dylid sicrhau bod pawb yn gyfarwydd â'r eirfa isod cyn dechrau'r daith.)

uchel	cerrig
hir	concrit
bach	adeilad
llydan	ar gau
mawr	busnes
cul	gweithiwr
de	perchennog
chwith	uwchben
fferm	islaw
ffatri	pysur
capel	neuadd
brics	